Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Bodlondeb**
**Conwy**
**LL32 8DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyfanswm poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw tua 114,828. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 51 o ysgolion cynradd, saith ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Mae'r awdurdod hefyd yn cynnal dwy uned cyfeirio disgyblion. Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd ym mis Rhagfyr 2022, penodwyd y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn 2012, a'r Pennaeth Addysg yn 2016. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei swydd er 2021 a dechreuodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Plant yn ei swydd yn 2019.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2011. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn un o chwe awdurdod lleol o fewn Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) Gogledd Cymru. Yn 2023-2024, cyllideb addysg net yr awdurdod lleol yw tua £117,868,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2023-24 yw £5,613, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £5,386.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd y gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghonwy wedi'i nodi isod:

- Dros gyfnod o dair blynedd, mae 20.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 22.8%. Mae wyth pwynt tri y cant (8.3%) o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 14.3%
- Mae cyfanswm o 215 o blant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
- Mae gan 16.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 14.7%
- Mae 3.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A,B neu C) sydd islaw cyfartaledd Cymru sef 5.1%
- Mae 11.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Cymraeg yn rhugl, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 14.7%

## Crynodeb

Mae uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi ymrwymo i sicrhau addysg effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghonwy. Adlewyrchir y nodau hyn yn dda ym mlaenoriaethau strategol a gwerthoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ffocws clir ar addysg a medrau, yn ogystal â themâu trawsbynciol allweddol eraill sy'n effeithio ar fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith yr awdurdod lleol, gan gynnwys ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.

Mae'r ethos tîm cryf, ynghyd ag agwedd gadarnhaol uwch arweinwyr, aelodau a swyddogion etholedig, yn helpu gyrru gwelliant parhaus ar draws yr awdurdod lleol. Mae gweledigaeth gref ar gyfer gwella a diwylliant o ddidwylledd a thryloywder yn sicrhau bod rhanddeiliaid priodol yn ymwybodol o gryfderau'r awdurdod a'r meysydd i'w datblygu. Er bod prosesau hunanwerthuso wedi hen ennill eu plwyf, nid yw cynlluniau ar gyfer gwella bob amser yn diffinio camau mesuradwy a chyflawnadwy ar gyfer gwella.

At ei gilydd, mae swyddogion gwella addysg Conwy yn adnabod ysgolion yr awdurdod lleol yn dda. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gyda chynghorwyr cefnogi gwelliant o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau. Mae'r awdurdod lleol yn dwyn y gwasanaeth gwella ysgolion i gyfrif yn briodol am ansawdd ac effaith ei waith ac yn helpu sicrhau bod y dysgu proffesiynol a gyflwynir yn diwallu anghenion eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae cynghorwyr cefnogi gwelliant yn casglu ac yn rhannu ystod o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth, ond nid yw eu gwaith yn canolbwyntio'n ddigon da yn gyson ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae swyddogion yn darparu ystod eang o wasanaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd yn dda. Bu ffocws addas ar feithrin capasiti mewn ysgolion ac mae swyddogion wedi ymateb yn dda i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Un o gryfderau nodedig gwaith y gwasanaeth ADY yw eu hymrwymiad i gynnig darpariaeth deg ar gyfer dysgwyr yn Gymraeg a Saesneg. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar weithredu Rhaglen Trawsnewid Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwerthuso effaith ei waith i gefnogi darpariaeth ADY yn ddigon da.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol trwy wasanaethau integredig i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer teuluoedd i helpu plant a phobl ifanc i ymgysylltu ag addysg. Mae sefydlu ei rwydwaith o Ganolfannau Teuluol Conwy yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ychwanegu at y gwaith hwn yn effeithiol, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i bobl ifanc. Er bod yr awdurdod yn dangos ymrwymiad clir i wella presenoldeb, mae'r cyfraddau presenoldeb yn parhau'n isel ac mae gwelliannau ar draws ysgolion wedi bod yn amrywiol.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir a phwrpasol i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae datblygu'r Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Corfforaethol, gydag ymrwymiad clir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig i

hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ledled Conwy. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu mecanwaith defnyddiol i gefnogi'r gwaith hwn yn ysgolion a lleoliadau'r awdurdod. Un o'r nodweddion nodedig yw gwaith y Tîm Cynghori ar y Gymraeg sy'n cynorthwyo staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. Mae hyn yn helpu gwella dealltwriaeth ysgolion o addysgeg effeithiol i gefnogi datblygiad iaith disgyblion ac yn cynyddu eu hyder mewn addysgu'r Gymraeg.

Dros gyfnod, mae deilliannau arolygu ysgolion yng Nghonwy yn amrywio, ond yn fwy diweddar, er mis Chwefror 2022, mae'r gyfran sydd angen gweithgarwch dilynol gan Estyn wedi gostwng. At ei gilydd, mae deilliannau yn gadarnhaol, a gofynnwyd i ddwy ysgol gynradd, un uned cyfeirio disgyblion a dau leoliad meithrin nas cynhelir gyflwyno astudiaeth achos arfer dda. Yn ystod yr un cyfnod, mae gwerthusiadau lles wedi bod yn gyson gryf, a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

## Argymhellion

A1 Miniogi prosesau i wella presenoldeb yn ysgolion ac UCDau yr awdurdod

A2 Mireinio ymagweddau at gynllunio gwelliant a sicrhau bod monitro a gwerthuso parhaus yn canolbwyntio ar effaith gwaith yr awdurdod lleol ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith o ran cynorthwyo pobl ifanc fregus trwy waith gwasanaethau integredig, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Nid oeddem yn gallu darparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a achosodd i'r arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill gael eu hatal er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd bod y pandemig wedi achosi newidiadau i'r ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu dyfarnu. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall yr ydym yn ei ystyried wrth wneud

gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16, ond, yn ddiweddar, rydym wedi dechrau derbyn y math hwn o ddata eto. Mae unrhyw werthusiadau sy’n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu’n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Dros gyfnod, mae deilliannau arolygu ysgolion yng Nghonwy yn amrywio. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 33 o ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn cynnwys 23 o ysgolion cynradd, dwy ysgol uwchradd, un ysgol arbennig a saith o leoliadau meithrin nas cynhelir. O’r ysgolion cynradd, barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar naw ysgol, gan gynnwys un ysgol a osodwyd yn y categori mesurau arbennig. Barnwyd bod angen categori monitro gan Estyn ar ddwy ysgol uwchradd. Barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar bedwar lleoliad nas cynhelir. O ganlyniad i welliannau, does dim un o’r darparwyr hyn yn aros yn y categori gweithgarwch dilynol.

Er mis Chwefror 2022, pan ailddechreuom ni gynnal arolygiadau ysgolion ar ôl y pandemig, mae 38 o leoliadau wedi cael eu harolygu. Mae hyn yn cynnwys 15 ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd, 18 o leoliadau meithrin nas cynhelir a dwy uned cyfeirio disgyblion. At ei gilydd, mae deilliannau’n gadarnhaol, a gofynnwyd i ddwy ysgol gynradd, un uned cyfeirio disgyblion a dau leoliad meithrin nas cynhelir gyflwyno astudiaeth achos i rannu arfer effeithiol. Fodd bynnag, barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar dair ysgol gynradd, gan gynnwys un ysgol yn y categori Adolygu gan Estyn, a gosodwyd dwy ysgol yn y categori mesurau arbennig. Yn ychwanegol, barnwyd hefyd fod angen gweithgarwch dilynol ar un ysgol uwchradd a dau leoliad meithrin nas cynhelir.

Rhwng 2017 a 2019, roedd perfformiad pedair ysgol uwchradd yng Nghonwy yn cyd-fynd â’r hyn sy’n ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 4, neu’n well. Roedd perfformiad y tair ysgol uwchradd arall yn is na’r disgwyl, ar y cyfan. Roedd disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan.

Roedd y farn ar les ac agweddau at les yn dda neu’n well yn y rhan fwyaf o’r arolygiadau yng Nghonwy yn ystod y cylch arolygu rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020. O’r 26 ysgol a arolygwyd, yn ystod y cyfnod hwn, roedd lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu’n well mewn 24 ohonynt, gan gynnwys pump ohonynt y barnwyd eu bod yn rhagorol. Barnwyd bod y ddwy ysgol arall yn ddigonol. Ers i ni ailddechrau cynnal arolygiadau ysgolion yn 2022, mae gwerthusiadau lles wedi bod yn gyson gryf. Nodwedd gyffredin yw barnau cadarnhaol o ran agweddau disgyblion at ddysgu a’u hymddygiad mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, a nifer isel y gwaharddiadau yn yr awdurdod lleol dros gyfnod. Dros y tair blynedd hyd at 2021, roedd cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol mewn dwy o’r tair blynedd. Dros yr un cyfnod, roedd cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn is na chyfartaleddau cenedlaethol.

At ei gilydd, mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod gryn dipyn yn is nag oeddent cyn y pandemig. Mar bron pob un o’r bobl ifanc yn parhau mewn addysg a hyfforddiant, neu’n cael swydd ar ôl gadael yr ysgol. Mae staff ysgolion ac UCDau ynghyd â swyddogion yr awdurdod lleol, gweithwyr ieuenctid a phartneriaid allanol,

yn darparu cymorth addas i gynorthwyo dysgwyr bregus i ennill y medrau oes sydd eu hangen arnynt, a'u cynorthwyo i gyflawni eu dyheadau gwaith neu astudio.

Mae aelodau o'r Cyngor Ieuenctid yn cyfrannu'n briodol at y broses ddemocrataidd. Maent yn mynychu cyfarfodydd perthnasol y Cyngor ac yn gwneud penderfyniadau, er enghraifft trwy rannu eu barn am geisiadau cyllid gan glybiau ieuenctid a dyrannu grantiau amrywiol. Maent hefyd yn cyfrannu at ychydig o feysydd strategol, er enghraifft trwy roi adborth ar Strategaeth Ddiwylliannol Conwy.

**Gwasanaethau addysg**

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo'i ysgolion a'i leoliadau i wella addysgu ac arweinyddiaeth?**

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cryf i wella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth yn ei ysgolion a'i leoliadau. Mae'n gweithio'n dda gyda'i Wasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion i gyflwyno ystod briodol o gymorth cyffredinol a thargedig i arweinwyr a staff. Mae swyddogion gwella addysg Conwy yn adnabod ysgolion yr awdurdod lleol yn dda. I ategu'r wybodaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion, mae swyddogion yn datblygu systemau cydlynus i werthuso pa mor effeithiol y mae ysgolion yn rheoli elfennau ehangach o'u gwaith, fel cyllid, adnoddau dynol (AD), presenoldeb neu gymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion wedi sefydlu system ddigidol fuddiol i gryfhau'r broses rhannu gwybodaeth. O ganlyniad, gall swyddogion weld ystod eang o adroddiadau am ymweliadau a gwybodaeth am ysgolion a lleoliadau Conwy. Mae'r rhain yn darparu sylfaen gref ar gyfer cyfarfodydd cynnydd rheolaidd rhwng yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol.

Mae gan swyddogion gwella addysg a chynghorwyr cefnogi gwelliant o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion berthnasoedd gweithio cynhyrchiol. Maent yn ystyried y prif faterion o ran ysgolion unigol, clystyrau a blaenoriaethau trosfwaol Conwy yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, mae cynghorwyr cefnogi gwelliant yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u hysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gan gynghorwyr cefnogi gwelliant yn dda ac mae wedi sefydlu dulliau cynhyrchiol i gasglu a rhannu gwybodaeth am ysgolion unigol. Mae cynghorwyr cefnogi gwelliant yn cytuno ar flaenoriaethau ysgol unigol gydag arweinwyr ysgol ac yn cydweithio â chalendrau sicrhau ansawdd yr ysgolion eu hunain i gwblhau gweithgareddau buddiol ochr yn ochr ag arweinwyr yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol trwy graffu ar waith, arsylwadau gwersi a theithiau dysgu. Mae hyn yn galluogi cynghorwyr cefnogi gwelliant i gasglu barn ar ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ac yn nodi cryfderau addas a meysydd addas i'w gwella. Er gwaethaf hyn, nid yw cynghorwyr cefnogi gwelliant bob amser yn canolbwyntio eu gwerthusiadau yn ddigon da ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod.

Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi adolygu strwythurau cyfarfodydd i'w helpu i ystyried ysgolion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r cyfarfodydd haenog hyn yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o drothwyau a sbardunau penodol i nodi'r ysgolion hyn a dyrannu'r cymorth mwyaf priodol. O ganlyniad, bu gwelliannau yn ansawdd a chraffter y trafodaethau mewn cyfarfodydd ac amseroldeb unrhyw ymyriadau. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y newidiadau hyn yn llawn.

Mae cynghorwyr cefnogi gwelliant yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion yn effeithiol, er enghraifft pan fydd ysgolion cynradd yn gweithio mewn clystyrau gyda'r ysgol uwchradd gyfagos i ganolbwyntio ar ychydig o flaenoriaethau a gytunwyd ar y cyd. Mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion yn darparu arlwy dysgu proffesiynol cynhwysfawr i ysgolion Conwy, ac mae cynllun cymorth unigol ar gyfer pob ysgol sy'n elwa'n fuddiol ar yr arlwy hwn. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn elwa ar yr ymagwedd 6 cam at ddatblygu darpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn raddol.

Mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion yn nodi blaenoriaethau lefel uchel addas trwy eu Cynllun Busnes Rhanbarthol. Caiff hwn ei gymeradwyo bob blwyddyn gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor sy'n cael ei gadeirio gan aelod cabinet yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn dwyn GwE i gyfrif yn briodol am ansawdd ac effaith ei waith, gan gynnwys trwy aelodau etholedig yn herio'n briodol mewn cyfarfodydd craffu. Mae hyn wedi helpu sicrhau bod cymorth a dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau gwella Conwy. Er enghraifft, mae atodiad Conwy i gynllun busnes GwE ar gyfer y flwyddyn bresennol yn cynnwys blaenoriaeth i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Hefyd, nododd yr awdurdod fod angen cefnogi penaethiaid newydd, penaethiaid dibrofiad a phenaethiaid dros dro, ac ychwanegodd GwE gyfleoedd gwerthfawr i fynd i'r afael â hyn. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnig cymorth gwerthfawr â hyfforddi a mentora ar gyfer penaethiaid sy'n ychwanegu at waith y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion.

At ei gilydd, mae llywodraethwyr ysgolion yn derbyn ystod fuddiol o arweiniad a dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddeall blaenoriaethau cenedlaethol, ac â phenodi penaethiaid, er enghraifft.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn ysgolion prif ffrwd?**

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd yn dda. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y gwasanaethau cynghori ac allymestyn arbenigol canolog a darpariaeth ddysgu ychwanegol a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae 15 o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yng Nghonwy yn cynnal darpariaeth canolfan adnoddau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Wrth ymateb i gynnydd yn y galw, yn ddiweddar, agorodd yr awdurdod ddarpariaeth uwchradd newydd ar gyfer dysgwyr niwrowahanol yn Ysgol Aberconwy. At ei gilydd, mae'r awdurdod yn cynnig darpariaeth werthfawr ar gyfer dysgwyr yn deg yn Gymraeg a Saesneg ledled y sir. Mae hyn yn gryfder yn narpariaeth yr awdurdod lleol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae adroddiadau arolygu ysgolion prif ffrwd yng Nghonwy yn adlewyrchu darpariaeth gyson gryf ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan arweinwyr ysgolion ddealltwriaeth dda o sut i fanteisio ar gymorth arbenigol yr awdurdod lleol ac yn croesawu'r cyngor a'r arweiniad amserol a ddarperir gan swyddogion. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu pecyn cymorth ADY buddiol a dogfen egwyddorion ar gyfer ysgolion sy'n cofnodi disgwyliadau'r awdurdod i ddatblygu arferion ysgol cynhwysol. Mae'r rhain yn helpu'r awdurdod i wneud penderfyniadau gwybodus am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ac angenrheidiol ar gyfer disgyblion. Yn ychwanegol, caiff trefniadau ar gyfer atgyfeiriadau i banelau arbenigol eu deall yn glir gan ysgolion.

Mae gwasanaeth ADY Conwy yn darparu ystod addas o wasanaethau cymorth. Mae hyn yn cynnwys seicoleg addysg, cymorth synhwyraidd, gwasanaeth allymestyn arbenigol ar gyfer anhwylder lleferydd ac iaith, gwasanaeth allymestyn ar gyfer awtistiaeth, cwnsela yn yr ysgol, swyddogion cynhwysiant ADY ac athrawon cymorth dysgu. Pan fo'n briodol, maent yn cwblhau asesiadau ac yn darparu ymyrraeth a chyngor cyffredinol ac arbenigol buddiol ar gyfer cynnwys plant ag ADY. Mae swyddogion yn cyflawni eu dyletswyddau yn gweithio gyda disgyblion, eu teuluoedd, ysgolion ac asiantaethau eraill yn llwyddiannus. Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer ei staff cynghori ac arbenigol canolog. Caiff hyn ei gydlynu i ymateb i feysydd angen canfyddedig fel proffiliau llythrennedd emosiynol a niwroddatblygiadol. Mae hyn yn helpu swyddogion i ymateb i feysydd sy'n bwysig i'w cyd-destunau arbenigol. Mae trefniadau ar gyfer gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau disgyblion ac arfer broffesiynol yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol yn casglu tystiolaeth yn ymwneud â chynnydd disgyblion trwy fforymau fel adolygiadau ADY athrawon cynhwysiant, adolygiadau disgyblion unigol a chyfarfodydd cynllunio seicoleg. Fodd bynnag, ar draws y gwasanaeth, ni ddefnyddir ystod y data a'r wybodaeth yn ddigon da i werthuso cynnydd disgyblion neu nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae ysgolion a swyddogion yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill fel y tîm pediatrig cymunedol a therapyddion lleferydd ac iaith, i ddarparu arweiniad a chymorth ar gyfer disgyblion ag ADY a'u teuluoedd. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus i greu adnoddau buddiol fel y pecyn cymorth ADY, yn ogystal â chyfrannu at drafodaethau mewn panelau cymedroli. Mae'r dull hwn yn galluogi ymarferwyr i ddiwallu anghenion disgyblion yn gyfannol.

Mae gwasanaeth ADY yr awdurdod wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ymateb i'w ddyletswyddau statudol wrth ymateb i egwyddorion rhaglen trawsnewid Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'u gweithredu. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi darparu dysgu proffesiynol, cymorth ac adnoddau gwerthfawr ar gyfer ysgolion i gefnogi'r datblygiadau hyn. Er enghraifft, maent wedi darparu sesiynau hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) ac wedi darparu pecyn cymorth arweiniad ADY defnyddiol a phlatfform digidol hygyrch. Mae'r adnodd digidol hwn yn darparu cyfle uniongyrchol i fynd at wybodaeth berthnasol mewn cynllun datblygu unigol ar gyfer pob un o'r ysgolion ac yn helpu hyrwyddo arfer gyson ar draws ysgolion a'r awdurdod. Yn ychwanegol, mae swyddogion yn hyrwyddo cydweithio ymhlith ysgolion i'w cynorthwyo â gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Mae llawer o arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan swyddogion.

Mae'r awdurdod wedi sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Mae'n sicrhau bod teuluoedd yn gallu manteisio ar ystod o wybodaeth a gwasanaethau defnyddiol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu cymorth gwerthfawr parhaus i deuluoedd unigol dysgwyr ag ADY. Yn ychwanegol, mae gwefan yr awdurdod lleol yn darparu trosolwg o wasanaethau y gall rhieni eu defnyddio, gan gynnwys eu hawliau o ran apelio a datrys anghydfod.

Nid oes gan y gwasanaeth ADY ymagwedd systematig at sicrhau ansawdd ei wasanaeth canolog na'i ddarpariaethau adnoddau prif ffrwd. Nid yw'n glir sut mae arweinwyr yn defnyddio data allweddol a gwybodaeth uniongyrchol i werthuso ansawdd y ddarpariaeth na'i heffaith ar gynnydd disgyblion.

**Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo teuluoedd i helpu plant a phobl ifanc i ymgysylltu ag addysg?**

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer teuluoedd i helpu plant a phobl ifanc i ymgysylltu ag addysg. Ceir diwylliant sefydledig ac effeithiol o weithio ar draws gwasanaethau, a dangosir hyn yn glir gan y gwasanaethau a gynigir yng Nghanolfannau Teuluol Conwy. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar safleoedd ar draws yr awdurdod ac yn darparu cyfleusterau diogel a chroesawgar sy'n cynnig ystod o wasanaethau cymorth gwerthfawr ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae arweinwyr a staff yn y canolfannau hyn yn gwerthfawrogi pwysigrwydd eu gwaith ac yn cydnabod bod angen help ar bawb ar ryw adeg yn eu bywydau.

Mae staff yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r gwasanaeth iechyd yn y canolfannau teuluol, er enghraifft i sicrhau bod plant yn cael addysg trwy ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyn gynted ag y bo modd. Mae staff yn nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg yn dda ac yn addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny, yn cynnwys cyflwyno rhaglen i gynorthwyo teuluoedd i adfer perthnasoedd. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o ganolfan addysg awyr agored yr awdurdod i feithrin unedau teuluol cryfach a chyfoethogi profiadau pobl ifanc. Mae teuluoedd plant ag ADY yn elwa ar ystod o wasanaethau sy'n eu helpu i ymgysylltu ag addysg. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn rhannu adnoddau a gwybodaeth berthnasol â rhieni; er enghraifft, maent yn amlygu'r opsiynau gofal plant sydd ar gael yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu ystod eang o weithgareddau buddiol ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth mynediad agored a thargedig, yn ogystal â chymorth un i un, lle bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol yn y ffordd y mae'n cynorthwyo pobl ifanc fregus i ymgysylltu â darpariaeth. Er enghraifft, maent yn cynnal prosiect sy'n helpu magu hyder a gwydnwch mewn lleoliadau grwpiau bach er mwyn i bobl ifanc sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol allu ymgysylltu o'r newydd â'r gymuned ehangach. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn gweithio'n agos ag ysgolion, gan gefnogi agweddau ar gwricwlwm ysgolion, lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys teilwra'r ddarpariaeth i weddu i anghenion unigol, er enghraifft trwy ysgrifennu a chyflwyno cwrs achrededig am ddiet iach ac ymarfer corff i ysbrydoli grŵp o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio mewn gwersi addysg gorfforol ysgolion.

Mae'r rhaglen cymorth i wirfoddolwyr a chymheiriaid yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ddatblygu medrau newydd a meithrin

agweddau cadarnhaol tuag at addysg neu'r byd gwaith. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn dysgu am ddiogelu, codau ymddygiad a bod yn fodel rôl cadarnhaol cyn iddynt gyflwyno sesiynau chwaraeon nad ydynt yn rhai traddodiadol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim i bobl ifanc mewn llety dros dro, i'w lleoedd astudio neu'u lleoedd gwaith. Mae staff o'r Prosiect Digartrefedd Pobl Ifanc yn darparu cymorth i bobl ifanc ddatblygu medrau pwysig. Er enghraifft, buont yn gweithio gyda sefydliad trydydd sector i gyd-gynllunio a chyflwyno cwrs ar gyfer grŵp o bobl ifanc gyda ffocws ar fedrau bywyd fel coginio a chyllidebu.

Mae gwasanaeth gwaith cymdeithasol addysg Conwy yn defnyddio ystod o ddulliau i fynd i'r afael â phresenoldeb isel neu absenoldebau parhaus mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys pennu Gweithwyr Cymdeithasol Addysgol a Swyddogion Lles Addysg i gynorthwyo teuluoedd penodol, lle mae ysgolion yn mynd ati i ddefnyddio'r gwasanaeth. Lle bo'n briodol, mae'r awdurdod yn gwneud defnydd addas o'i bwerau statudol i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus. Gall teuluoedd ac ysgolion fanteisio ar adnoddau defnyddiol i gynorthwyo mewn sefyllfaoedd penodol. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth seicoleg addysg yn cynnig pecyn i gynorthwyo'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan osgoi'r ysgol ar sail emosiynau. Mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth cwnsela addas ar gyfer disgyblion. Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi datblygu system olrhain ddefnyddiol i gynorthwyo â dadansoddi data presenoldeb mewn ysgolion ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd a wneir o'r offeryn hwn.

At ei gilydd, mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn is nag oeddent cyn y pandemig ac mae'r cyfraddau absenoldeb parhaus mewn llawer o ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn rhy uchel. Nid yw ymyriadau i fynd i'r afael â'r diffygion hyn wedi cael digon o effaith ar wella lefelau presenoldeb eto.

**Pa mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r Gymraeg?**

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws ei ysgolion a'i leoliadau. Mae uwch arweinwyr yn cydweithio i sicrhau bod hyrwyddo'r iaith yn ganolog i waith y Cyngor. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i ddyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy nodi cyfleoedd ar gyfer cynllunio a datblygu'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff hyn ei gyfleu'n dda i eraill ledled y sir trwy ystod o ffynonellau, gan gynnwys Fforwm Hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Polisi Strategaeth Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yn darparu mecanwaith defnyddiol ar gyfer swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid ehangach i ddeall blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol. Mae uwch arweinwyr, aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid yn gweithio'n rhagweithiol i roi ystod o fentrau ar waith i fodloni'r nodau a'r amcanion ar draws yr holl sectorau. Mae hyn yn helpu sicrhau ymrwymiad cryf i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae swyddogion yn cefnogi dau glwstwr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n dymuno cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr ysgolion hyn, mae'r awdurdod yn darparu arweiniad a chymorth pwrpasol ar gyfer arweinwyr, staff, llywodraethwyr a rhieni i helpu disgyblion i wella'u medrau Cymraeg.

Mae swyddogion yn defnyddio ystod o wybodaeth yn briodol i nodi ffyrdd y gallant ddatblygu darpariaeth gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod. Maent yn gweithio'n bwrpasol gydag ystod o sefydliadau ymbarél a phartneriaid allanol i gynllunio a sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg addas mewn meysydd penodol. Er enghraifft, mae swyddogion wedi cefnogi sefydlu canolfannau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg mewn meysydd penodol i gynorthwyo plant a theuluoedd.

Mae arweinwyr a swyddogion yn gwneud defnydd priodol o grantiau a chyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfalaf o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i fuddsoddi mewn darpariaeth newydd i fodloni'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar.

Mae gwaith Tîm Cynghori ar y Gymraeg yr awdurdod lleol yn gryfder nodedig. Mae'r tîm yn darparu ystod fuddiol o ddysgu proffesiynol ac yn rhannu adnoddau buddiol i wella addysgeg. Mae hyn yn helpu arweinwyr a staff mewn ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r ymagweddau mwyaf effeithiol at addysgu'r Gymraeg. Ar draws pob sector, mae'r Tîm Cynghori ar y Gymraeg yn gweithio'n ddiwyd i gyfoethogi profiadau disgyblion yn y Gymraeg a dysgu am ddiwylliant Cymru trwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith ysgolion yn dda wrth iddynt geisio annog mwy o ddisgyblion a phobl ifanc i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, yn enwedig wrth iddynt symud o un sector i un arall. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi gwaith holl canolfannau trochi iaith ledled yr awdurdod yn effeithiol. Mae'r canolfannau hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion a allai fod wedi methu cael addysg gynnar cyfrwng Cymraeg yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion yn darparu cymorth addas o ran y Gymraeg ar gyfer ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd. Yn yr enghreifftiau cryfach, maent yn cynorthwyo staff i hyrwyddo'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd gyda disgyblion ar draws yr ysgol gyfan, yn ogystal â darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol yn benodol i bwnc.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd da i staff ddatblygu eu medrau Cymraeg i gefnogi dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn nodi cymhwysedd iaith staff ac yn darparu cyfleoedd dysgu pwrpasol sy'n helpu staff i fagu hyder ac ennill medrau i addysgu disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, mae gan swyddogion uchelgais glir i gyflogi ystod o weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo disgyblion ag ADY a'u teuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer sicrhau darpariaeth addysg effeithio yng Nghonwy. Mae'r cynllun corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn dda, gan gynnwys ystyriaethau addas ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Trwy hyn, mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys datblygu llawer o themâu trawsbynciol perthnasol, fel eu huchelgais i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac mewn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac uwch swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i arwain gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda.

Mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth roi llawer o fentrau strategol ar waith, fel eu huchelgais glir ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yng Nghonwy. Maent wedi ystyried barn rhanddeiliaid ac wedi ymgysylltu'n dda â phartneriaid eraill wrth ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Er bod strategaeth Gwrth-dlodi drosfwaol yr awdurdod lleol yn gymharol newydd, mae'n helpu cyflwyno cydlyniaeth i ystod eang o fentrau a gweithgareddau sefydledig sy'n dechrau helpu lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau a lles grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol, y Pennaeth Addysg a rheolwyr y gwasanaeth addysg yn gweithio'n dda fel tîm. Gyda'i gilydd, maent wedi datblygu tîm brwdfrydig o staff sy'n deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda, gan gydweithio'n gydwybodol mewn gyrru blaenoriaethau ymlaen.

Mae'r Prif Weithredwr, yr uwch swyddogion a'r aelodau etholedig yn deall yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg yn dda. Mae Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg yn meddu ar amgyffrediad cryf o'r prif faterion, ac yn ysgogi uwch swyddogion i ystyried cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes yn barhaus. Mae hyn yn helpu sicrhau ymdeimlad addas o berchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau addysg yng Nghonwy. Fodd bynnag, mae diffyg manylder digonol mewn mwyafrif o gynlluniau gwella o fewn gwasanaethau addysg i alluogi arweinwyr a rheolwyr i fesur a gwerthuso cynnydd tuag at eu blaenoriaethau strategol, er enghraifft i ddarparu dangosyddion defnyddiol ynglŷn â sut gallai gwelliannau effeithio ar safonau neu ddeilliannau dysgwyr.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Sgiliau yn darparu craffu amserol ar nifer o faterion perthnasol sy'n wynebu addysg yn yr awdurdod. Mae swyddogion a phartneriaid perthnasol, fel GwE, yn darparu adroddiadau defnyddiol i'r pwyllgor. Mae uwch swyddogion yn cynorthwyo'r pwyllgor ymhellach trwy ddarparu eglurder a gwybodaeth ychwanegol berthnasol yn ystod y cyfarfodydd. Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau craffu yn dda ac yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n dda. Mae'r pwyllgor yn gwneud defnydd effeithiol o sesiynau gwerthfawr cyn cyfarfodydd, yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen, sy'n cryfhau'r broses ymhellach. Maent yn hynod graff o ran y cynnwys y maent yn dymuno craffu arno, ac ar y cyfan, yn darparu her gadarn i helpu ffurfio a datblygu polisi'r Cyngor, yn ogystal â herio perfformiad y cabinet yn effeithiol. Trwy flaenraglen waith dra ystyriol, maent yn craffu'n ddefnyddiol ar nifer o faterion craidd fel trefniadaeth ysgolion a pherfformiad ysgolion. Yn ychwanegol, maent yn craffu ar nifer o faterion perthnasol fel sut mae ysgolion yn delio â chyllidebau wrth gefn, aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r Gymraeg mewn addysg o fewn yr awdurdod. Maent wedi bod yn effeithiol o ran darparu her dda i'r weithrediaeth ac wedi sicrhau bod atebolrwydd priodol dros gyfnod.

Mae gan yr awdurdod weledigaeth gref ar gyfer gwella, sy'n cael ei mynegi ag eglurder ac angerdd gan arweinwyr ar bob lefel. Caiff yr uchelgais hon ei rhannu gan randdeiliaid a'i chyflwyno o fewn diwylliant o onestrwydd a didwylledd a thryloywder. Mae cynllun corfforaethol strwythuredig yr awdurdod yn amlinellu amcanion allweddol, sy'n cael eu gwerthuso'n rheolaidd i fonitro cynnydd. Mae prosesau hunanwerthuso, ynghyd â'r systemau rheoli perfformiad corfforaethol, wedi hen ennill eu plwyf ac yn cael eu cefnogi gan ymglymiad ystod o randdeiliaid. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwybod beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws

gwasanaethau addysg yn briodol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau dilynol bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd gwella a nodwyd.

Mae gan yr awdurdod lleol ymagwedd strwythuredig a phwrpasol at ddatblygiad proffesiynol ei staff. Ategir hyn yn dda gan Strategaeth Y Bobl (2022-2027), sy'n darparu ffocws strategol cadarn i'r gwaith hwn, ynghyd â'r trefniadau rheoli perfformiad gwerthfawr ar gyfer unigolion. Mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r her a ddarperir gan y broses hon, gan gynnwys y cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol y gallant fanteisio arnynt. Mae rhaglen gorfforaethol gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff, sy'n cynnwys materion pwysig a chyfoes fel diogelu, trais domestig a seiberddiogelwch. Mae swyddogion arweiniol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i nodi ffyrdd arloesol i ehangu ac addasu'r arlwy dysgu. Mae hyn wedi arwain at ystod helaeth o gyfleoedd ar gyfer staff, sy'n cynnwys agweddau ar les a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, yn ogystal ag ystod o raglenni arweinyddiaeth. Yn unol â gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae hyfforddiant buddiol ar gael i bob un o'r staff sy'n dymuno dysgu'r iaith neu wella'u medrau.

Mae gan yr awdurdod lleol fodel Cymunedau Dysgu Proffesiynol sefydledig a hynod werthfawr ar waith ar draws ysgolion a chlystyrau. Mae hefyd yn gweithio'n agos â GwE i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol ar y cyd y gall ysgolion a chyflogeion canolog fanteisio arno. Mae 'Sgwrs Conwy' yn fecanwaith i ennyn diddordeb pob un o'r staff mewn deialog ddatblygiadol bersonoledig, sy'n amlygu anghenion unigol a chorfforaethol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar staff ers ei gweithredu ac mae'n ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg gan staff yr awdurdod lleol, er enghraifft i ddatblygu gwydnwch neu ymdopi â'r menopos.

Mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei rôl statudol i amddiffyn a diogelu plant yn effeithiol. Mae arweinwyr perthnasol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw dysgwyr yn ddiogel. Mae ystod eang o grwpiau strategol a gweithredol yn rhoi ffocws cadarn ar faterion diogelu ac amddiffyn plant trwy gyfarfodydd rheolaidd, prosiectau penodol, a strategaethau ar draws yr awdurdod.

Mae gan Fwrdd Diogelu Corfforaethol Conwy gynllun gweithredu clir a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n dda ar faterion lleol a rhanbarthol pwysig. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys gweithredu diddymu cosb gorfforol, diogelwch cyn geni plentyn, cyflenwi cyffuriau ffiniau sirol ac anafiadau nad ydynt yn ddamweiniol. Mae'r Bwrdd yn rhoi ystyriaeth ofalus i ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru a chanfyddiadau allweddol o adroddiadau cenedlaethol, ac wedi rhoi mesurau a pholisïau tra ystyriol ar waith i liniaru yn erbyn unrhyw risg bosibl neu dueddiadau negyddol. Er enghraifft, mae gan yr awdurdod lleol strategaeth ar draws y sir i leihau nifer yr achosion o fwlio. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer ysgolion, cymorth wrth roi'r strategaeth ar waith ac adolygiad cynhwysfawr o effaith yn ddiweddarach.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant perthnasol a chyfoes mewn diogelu ac amddiffyn plant ar gyfer ysgolion ac UCDau. Caiff arweinwyr diogelu dynodedig eu cynorthwyo'n dda gan wasanaethau plant. Maent yn derbyn cyngor ac arweiniad clir sy'n eu helpu i wneud atgyfeiriadau priodol i'r tîm dyletswydd ac asesu. Mae gwaith Fforwm Cam-drin Rhywiol Amlasiantaethol (MACSAF) yr awdurdod lleol yn fuddiol ac yn cefnogi arweinwyr ysgol perthnasol i ddeall sut i adnabod arwyddion posibl o

niwed. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn rhannu gwybodaeth am ddiogelu yn briodol gydag ysgolion ac UCDau trwy'r cylchlythyr cyffredinol wythnosol.

Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn glir a chynhwysfawr. Mae'r gyfarwyddiaeth addysg yn darparu polisïau a chanllawiau perthnasol ar gyfer ysgolion ac UCDau. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn sicrhau ansawdd archwiliadau diogelu blynyddol ysgolion ac yn cefnogi ysgolion yn dda i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol. Mae hyn, ynghyd â phrosesau recriwtio mwy diogel priodol, yn cael effaith gadarnhaol ar gryfhau'r diwylliant diogelu ar draws ysgolion Conwy. Mae trefniadau ar gyfer cymhwyso Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru i ymateb i honiadau yn erbyn staff addysg a phobl eraill mewn swyddi cyfrifol yn briodol.

Mae'r awdurdod lleol yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg, ac mae arweinwyr wedi ceisio gwarchod ysgolion rhag y toriadau i gyllidebau a brofwyd gan wasanaethau eraill. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn fwy heriol yn y dyfodol agos o ystyried sefyllfa ariannol bresennol yr awdurdod a lefelau isel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Yn hanesyddol, roedd cyllideb addysg net Conwy uwchlaw cyfartaledd Cymru yn gyson, ond yn 2021-22 (y flwyddyn olaf y mae data ar gael ar ei chyfer), roedd hyn wedi disgyn i fod yn unol â chyfartaledd Cymru. Mae canran y gyllideb addysg a ddirprwyodd yr awdurdod i ysgolion yn 2023-24 hefyd yn unol â chyfartaledd Cymru.

Mae gan yr awdurdod hanes o wario o fewn ei gyllideb addysg yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae cynyddu costau cludiant o'r cartref i'r ysgol wedi arwain at orwariant arfaethedig o £1.2 miliwn yn 2023-24. Mae adolygiad o gludiant o'r cartref i'r ysgol wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn annhebygol o wireddu unrhyw arbedion o'r ymarfer hwn tan 2025-26 a bydd unrhyw opsiynau yn destun ymgynghoriad.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o heriau ariannol o fewn y gwasanaeth addysg, ac mae prosesau strwythuredig ar waith i fonitro cyllidebau a grantiau ysgolion. Mae swyddogion addysg ac arweinwyr ysgolion yn mynd ati i nodi arbedion i gefnogi cyllideb addysg gytbwys ar gyfer 2024-25 a thu hwnt. Mae'r awdurdod yn darparu cymorth defnyddiol i ysgolion ar gyfer cynllunio ariannol, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddata i helpu nodi cyfleoedd am arbedion. Mae gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion aelodaeth eang sy'n cynnwys penaethiaid, swyddogion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig a llywodraethwyr. Mae hyn yn hwyluso trafodaethau adeiladol ar ystod o faterion perthnasol, fel pwysau o ran y gyllideb a'r fformiwla cyllid ysgolion. Caiff y fformiwla ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol.

Yn unol ag awdurdodau eraill, cynyddodd balansau ysgolion o £1.8 miliwn yn 2019-20 i £10.3 miliwn ar ddiwedd 2022-23. Mae cynlluniau ar waith i leihau gwargedau ac mae'r awdurdod yn rhagweld y bydd balansau cyffredinol ysgolion yn lleihau gan ryw hanner erbyn diwedd 2023-24. Er nad oedd diffygion gan yr un o ysgolion yr awdurdod ar ddiwedd 2022-23, roedd dwy ysgol wedi cael benthyciadau a ariannwyd o falansau dros ben cyfun. Mae gan yr awdurdod drefniadau effeithiol i fonitro balansau ac mae'n ofynnol i ysgolion sy'n rhagweld diffyg roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r risg.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau), y mae'n eu hadolygu bob dwy flynedd. Mae lefel uchel yn manteisio ar y

rhain, ar y cyfan, ac mae adborth diweddar mewn arolygon gan ysgolion yn gadarnhaol, at ei gilydd.

## Atodiad 1: ASTUDIAETH ACHOS ARFER ARLOESOL AC EFFEITHIOL

**Enw'r darparwr:** Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg

**Awdurdod Lleol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Unigolyn cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i gael mwy o wybodaeth:** i'w gadarnhau

**Gwefan:** www.conwy.gov.uk

**Dyddiad arolygiad Estyn:** Tachwedd 2023

**Maes yr arfer a nodwyd yn ystod arolygiad:**

Ystod y cymorth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc fregus trwy weithio mewn gwasanaethau integredig.

**Teitl yr astudiaeth achos:**

Cefnogi pobl ifanc fregus trwy weithio mewn gwasanaethau integredig

**Maes Arolygu:** MA2, MA3

**Gwybodaeth am yr awdurdod lleol**

Cyfanswm poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw tua 114,828. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 51 o ysgolion cynradd, saith ysgol uwchradd, un ysgol arbennig a dwy uned cyfeirio disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn darparu addysg ar gyfer 15,700 o ddysgwyr i gyd. Mae Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn wasanaeth integredig o fewn Conwy ac mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dod o fewn y portffolio Addysg. Rhoddir disgrifiad manwl isod o'r gwaith a'r ddarpariaeth a gyflwynir gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'r gwasanaethau eraill o fewn y portffolio Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol neu arloesol**

O fewn cyd-destun newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn cyfarwyddeb polisi, newidiadau yn y ddynameg leol ac wrth ymateb i hinsawdd ariannol heriol, mae'r Awdurdod Lleol yn deall pwysigrwydd sicrhau deilliannau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc nid yn unig yn y tymor byr, ond o fewn safbwynt tymor hirach meithrin gwydnwch, bod yn weithredol yn economaidd a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus. Un o ganlyniadau arwyddocaol hyn yng Nghonwy yw ailstrwythuro ac uno Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn llwyddiannus yn un gwasanaeth integredig. Mae'r gweithgarwch strategol a gweithredol ar draws Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Ar draws ystod yr arbenigedd o fewn y gwasanaeth, ceir dealltwriaeth fuddiol ar y ddwy ochr o ddyletswyddau deddfwriaethol allweddol a throthwyau ar gyfer cymorth ac ymyrraeth. Cynlluniwyd y gwasanaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y mae ei gofynion wrth

wraidd trawsnewid gwasanaeth ar draws gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg, sy'n anelu at gyflwyno agenda ataliol, gan rymuso dinasyddion i geisio iechyd a lles gwell drostynt eu hunain.

Mae effaith integreiddio Gofal Cymdeithasol ac Addysg wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Ar lefel strategol, crybwyllir y tîm rheoli sengl ar bob mater yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn ffordd gydlynus a chydlynol. Ar lefel weithredol, mae gan staff synnwyr cynyddol o berthyn ac ymrwymiad i un tîm Gofal Cymdeithasol ac Addysg a gweledigaeth, sef *'Cydweithio â'n cymuned i alluogi pawb i gael y gorau o fywyd'*. Mae timau'n dangos cydnabyddiaeth o feysydd arbenigol yn glir ac yn defnyddio arbenigedd ar draws meysydd gwasanaeth i arloesi, gwella arfer a chyflawni gwelliannau. Mae integreiddio gwasanaethau Ieuenctid a Chyflogadwyedd yn y portffolio addysg wedi galluogi i wasanaethau gael eu cyflwyno'n ddi-dor ar draws cymunedau, ymhlith pobl ifanc a'r rhai sy'n chwilio am gyflogaeth.

Caiff ymagweddau cydweithredol cryf ar draws Gofal Cymdeithasol ac Addysg eu hymgorffori'n dda ac maent yn effeithio'n gadarnhaol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae prosesau clir ar waith ar gyfer nodi'n gynnar, sy'n galluogi gweithredu cymorth priodol mewn modd amserol. Caiff cymorth ar gyfer teuluoedd ei gydlynu'n dda ac mae fframwaith clir ar waith ar gyfer llwybrau atgyfeirio cynnar ac ymglymiad amlasiantaethol. Gall teuluoedd fanteisio ar rwydweithiau eang o bartneriaid sy'n gallu cynnig cymorth a darpariaeth y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

**Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgarwch**

Trwy ei ymagwedd gwasanaethau integredig, caiff adnoddau i gynorthwyo pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n bwrpasol ac yn briodol. Trwy weithio mewn partneriaeth yn effeithiol, mae arlwy cytbwys o raglenni cyffredinol, mynediad agored a thargedig sy'n ymatebol i anghenion newidiol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. O dan thema drosfwaol "mae angen help ar bawb weithiau", mae ystod eang o ddarpariaeth, cymorth a mynediad ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd fynd i'r afael â bregusrwydd ac ennyn eu hymgysylltiad ag addysg.

O dan ymbarél y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, mae Conwy wedi parhau i ddatblygu ei ymagwedd gydweithredol ac integredig at weithio. Mae gwasanaethau allweddol o fewn yr Awdurdod Lleol, fel: Tai, Addysg, Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu, yn cydweithio i nodi anghenion, bylchau a meysydd i'w gwella. Mae cydweithio â gwasanaethau mewnol ac allanol yn galluogi swyddogion a gwasanaethau i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu pennu i feysydd blaenoriaeth.

Mae'r ymagwedd at gymorth yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn addysg ac ymgysylltu â hi. Mae gan yr Awdurdod Lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sefydledig sy'n darparu cyngor a gwybodaeth werthfawr i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn effeithiol yn sicrhau hyb gwybodaeth symlach sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i rieni chwilio drwyddo wrth wneud penderfyniadau allweddol am ddarpariaeth addysg.

Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yng Nghonwy wedi'u gwreiddio'n dda ac yn ffurfio rhan annatod o ymagwedd yr Awdurdod Lleol sy'n cael ei hategu gan werthoedd gwasanaethau cyhoeddus i gyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae arlwy'r Ganolfan Deuluol yn darparu amgylchedd cynhwysol ac anogol sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gofleidio bywyd fel oedolyn a dod yn ddinasyddion cyfrifol, annibynnol, sy'n economaidd weithgar ac yn wydn. Mae Canolfannau Teuluol wedi'u lleoli ledled pum ardal, sy'n cyd-fynd yn agos â dalgylchoedd ysgolion. Mae'r model yn sicrhau bod ysgolion yn gallu troi'n uniongyrchol at weithiwr teuluol enwebedig sy'n gweithio gyda theuluoedd i hyrwyddo ymgysylltu o'r newydd ag addysg.

Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn gryfder ac yn elfen allweddol o raglen Gofal Plant Dechrau'n Deg (FSC). Mae'r tîm FSC yn gweithio'n agos â nifer o asiantaethau a phartneriaid i gefnogi'r cyfnod pontio i ofal plant a thrwodd i addysg gynnar. Mae'r Tîm FSC yn gweithio'n agos â thîm y Blynyddoedd Cynnar, Gwasanaeth Portage, Canolfan Datblygiad Plant Conwy a Chynllun Cymorth Cyn-Ysgol Conwy i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu a gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu, gan arwain at bontio esmwyth o addysg gynnar. Darperir ystod o adnoddau ac offer i deuluoedd i gefnogi taith addysgol eu plentyn.

Mae Dechrau'n Deg yng Nghonwy wedi sicrhau mynediad cynharach at ofal plant i lawer o deuluoedd yng Nghonwy gan alluogi plant i gymdeithasu â'u cyfoedion a datblygu eu medrau cynnar. Mae rhaglen allymestyn Dechrau'n Deg ar gael (trwy atgyfeirio) i deuluoedd nad ydynt yn gymwys i gael cyllid gofal plant Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, ond a allai elwa ar y cymorth ychwanegol a gynigir. Cyflwynir atgyfeiriadau gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol amrywiol lle caiff angen ei nodi.

Mae gofal plant Dechrau'n Deg Conwy yn darparu ymyrraeth gynnar werthfawr wrth i blentyn ddechrau ei daith trwy ofal plant ac addysg, a thrwy weithio gyda phartneriaid ac ysgolion lleol, gan felly sicrhau bod teuluoedd yn gallu manteisio ar gymorth yn hawdd. Gellir gweld effaith y dull cyfannol yn y modd y mae ysgolion wedi magu hyder yn defnyddio ac yn manteisio ar ymyriadau fel: ysgolion bro, ELSA ac ysgolion sy'n ystyriol o drawma. Bu cynnydd mewn achosion cymhleth a dwys ar ôl y cyfnod clo, ac wrth ymateb i hynny, mae gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddiwallu anghenion y rhai mwyaf bregus.

Mae darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol wedi'i leoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy (CYS) yn effeithiol o ran hwyluso ac yn cefnogi twf pobl ifanc trwy ddibyniaeth i annibyniaeth, gan annog eu haddysg bersonol a chymdeithasol a helpu pobl ifanc i gymryd rôl gadarnhaol mewn datblygu eu cymunedau a'u cymdeithas. Mae strwythur y gwasanaeth yn ymgorffori cynlluniau cenedlaethol fel Iechyd a Lles, Digartrefedd ymhlith Ieuenctid, Gwaith Ieuenctid Digidol a lleihau nifer y bobl ifanc NACH. Mae'r dull aml-wasanaeth hwn yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn rhan o'r broses ac wedi helpu ffurfio'r adnoddau ac arfer gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc.

Mae CYS yn cynnig 30 o ddarpariaethau clybiau ieuenctid mynediad agored ar draws yr Awdurdod Lleol a 5 o ddarpariaethau cymunedol targedig yr wythnos. Mae CYS yn gweithio'n agos ag ysgolion, Canolfannau Teuluol a hybiau tai Cartrefi Conwy. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu clybiau galw heibio mewn 4 o gyfleusterau llety dros dro ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n ddigartref. Trwy weithio gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Gofal Cymdeithasol a'r tîm Cwnsela mewn Ysgolion, mae CYS wedi creu arlwy clwb ieuenctid pwrpasol ar gyfer pobl ifanc sydd angen mwy o gymorth yn canolbwyntio ar les, gan greu llwybr yn ôl i leoliadau cymdeithasol sy'n meithrin gwydnwch tra'n gweithio yn ôl cyflymdra'r unigolyn. Mae ymyrraeth dargedig yn amrywio o gymorth ar-lein, ymweliadau stepen drws, teithiau cerdded lles a sesiynau grwpiau llai fel rhan o raglen Seren Conwy.

Esblygodd rhaglen Seren o fersiynau blaenorol lle roedd darparu cymorth lles wythnosol yn cynnwys ymweliadau stepen drws, teithiau cerdded lles a darpariaeth symudol lles i ymateb i'r angen cynyddol ledled Conwy. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer pobl ifanc sy'n ynysu eu hunain yn gymdeithasol oherwydd rhwystrau lles meddwl neu anabledd, gyda'r nod o fagu hyder, gwydnwch a medrau i wella lles ac ailintegreiddio i leoliadau cymdeithasol mwy. Daw atgyfeiriadau ar gyfer y rhaglen hon o ystod eang o wasanaethau'r Awdurdod Lleol, gwasanaethau Iechyd a gwasanaethau eraill, yn cynnwys: gwasanaethau ieuenctid, CAMHS, cwnsela yn yr ysgol, ysgolion, gweithwyr teuluol, therapyddion lleferydd ac iaith a'r rhieni eu hunain.

Mae Prosiect Y Dderwen Conwy yn brosiect ataliol sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am ddigartrefedd a thai. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu gwydnwch, medrau byw yn annibynnol a gwneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Gan ddefnyddio methodoleg gwaith ieuenctid, mae'r prosiect wedi gallu creu adnoddau pwrpasol, sy'n addysgu pobl ifanc trwy weithgareddau addysgol rhyngweithiol, hwyliog ac anffurfiol.

Mae'r prosiect yn cynnig ymyrraeth gynnar ac yn cynorthwyo mewn argyfwng, hefyd. Cyflawnir hyn trwy gynnig cymorth i deuluoedd a phobl ifanc sy'n profi anawsterau o ran tai a digartrefedd. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn gweithredu pum sesiwn galw i mewn mynediad agored mewn llety a lleoliadau preswyl dros dro. Mae'r sesiynau hyn wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol y person ifanc a'i amgylchiadau teuluol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu ymagwedd deilwredig yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i ymateb i anghenion penodol teuluoedd tra'n meithrin perthnasoedd sefydledig gyda phobl ifanc sydd wedi elwa ar ddarpariaeth ieuenctid gymunedol, gwaith ieuenctid mewn ysgolion a phrosiectau targedig hefyd.

**Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar y ddarpariaeth ac ar safonau dysgwyr?**

Mae cylch gorchwyl y gwaith hwn yn sicrhau dull cwmpasu popeth a 'dim drws anghywir' clir ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd bregus. Mae ymgysylltu â theuluoedd cyn gynted ag y bo modd, gallu meithrin perthnasoedd ymddiriedus, sicrhau bod

| |
|---|
| ymgysylltu â gwasanaethau addysg a gwasanaethau ehangach yn sbardun cadarnhaol ar gyfer gwelliant.<br><br>Gwnaed gwaith prosiect penodol i fynd i'r afael â materion presenoldeb yn gysylltiedig ag osgoi mynd i'r ysgol ar sail emosiynau ac mewn dysgwyr niwrowahanol. Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn ymatebol i themâu ar wahân a nodwyd ar draws asiantaethau o ran monitro presenoldeb a cheisiadau am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Yn ychwanegol, mae cymorth gan dimau cwnsela mewn ysgolion wedi arwain at iechyd meddwl a lles gwell i 85% o ddysgwyr a ymgysylltodd â sesiynau.<br><br>Mae arolygiadau Estyn yn dangos effaith o ran lles ac ymddygiad cadarnhaol dysgwyr ar draws ysgolion Conwy.<br><br>Mae darpariaeth yn parhau i esblygu a datblygu i ymateb i angen lleol ac ar sail tystiolaeth a gasglwyd trwy ystod o wasanaethau ar draws Gofal Cymdeithasol ac Addysg. |
| **Sut ydych chi wedi rhannu eich arfer dda?**<br><br>Dyfarnwyd Marc Ansawdd Aur am Waith Ieuenctid i'r Gwasanaeth Ieuenctid trwy rannu cwmpas ei wasanaeth a'i ddarpariaeth, yn ogystal â gwobr baner enfys.<br><br>Cydweithiodd Gwasanaeth Ieuenctid Conwy â CLILC i gefnogi a chyfrannu at gynllunio a chydlynu cynhadledd atal Digartrefedd ymhlith Ieuenctid ar y cyd ag End Youth Homelessness Cymru. Rhannwyd enghreifftiau o arfer dda ac astudiaethau achos o Gonwy gyda gwasanaethau llywodraeth leol, gan gynnwys: addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r sector gwirfoddol.<br><br>Mae uwch swyddogion yn aelodau o Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru.<br><br>Mae swyddogion yn ymgymryd â gwaith trawsnewid rhanbarthol a chenedlaethol, er enghraifft Taith i Saith. Caiff arfer dda ei rhannu ar draws ystod o fforymau strategol a gweithredol, yn cynnwys: rhwydweithiau Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. |

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024